**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2014**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Dim. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorwyr Hugh Irving ac Eryl Williams gysylltiad personol ag Eitem 8 - Datblygiadau Polisi Trethi Busnes yng Nghymru. Datganodd y Cynghorwyr Hugh Irving ac Eryl Williams gysylltiad personol ag Eitem 9 – Rhyddhad Trethi Dewisol |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2013 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | Y CYNNIG I GAU YSGOL LLANBEDR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.* |
| **6** | FFRAMWAITH AR GYFER GWASANAETHAU INTEGREDIG AR GYFER POBL HŶN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i gyflwyno'r Datganiad o Fwriad drafft (gwelwch Atodiad 1) i Lywodraeth Cymru fel ymateb rhanbarthol cychwynnol i ddogfen Llywodraeth Cymru "Fframwaith ar gyfer Darparu Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig" (Gorffennaf 2013).* |
| **7** | POLISI DYRANIADAU CYFFREDIN - UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer Sir Ddinbych fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad,*<br><br>*(b) yn gofyn i swyddogion adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar y camau i'w cymryd mewn perthynas â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad a phwyntiau pellach a godwyd gan aelodau etholedig yn y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **8** | DATBLYGIADAU POLISI TRETHI BUSNES YNG NGHYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau yn mabwysiadu'r 'penderfyniadau enghreifftiol' yn ffurfiol a'r 'ffurflenni cais enghreifftiol' ar gyfer y ddau gynllun fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.* |
| **9** | RHYDDHAD TRETHI DEWISOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r newidiadau bwriedig i'r Meini Prawf Rhyddhad Trethi Dewisol i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2014 ar gyfer ymgeiswyr newydd ac 1 Ebrill 2015 ar gyfer ymgeiswyr presennol, fel y nodir ym mharagraffau 4.1-4.9 o'r adroddiad.* |
| **10** | CYLLIDEB 2014/15 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cefnogi'r cynigion ar gyfer cyllideb 2014/15 fel y dangosir yn Atodiad 1 o'r adroddiad ac yn argymell hynny i'r Cyngor llawn,*<br><br>*(b) yn argymell y cynnydd o 3.5% yn lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15 i'r Cyngor llawn.* |
| **11** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth a gytunwyd ar gyfer y gyllideb.*<br><br>*(b) yn cymeradwyo trosglwyddo'r symiau canlynol i gronfeydd wrth gefn fel y nodir yn Adran 6 yr adroddiad:*<br><br>• *£72 mil i Gronfa Wrth Gefn EDRMS*<br>• *£355 mil i'r Gronfa Buddsoddi Strategol (Tai Gofal Ychwanegol)*<br>• *£300 mil i Gronfa Wrth Gefn Moderneiddio Gofal Cymdeithasol.* |
| **12** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **13** | FFRAMWAITH CONTRACTWYR YSGOLION AC ADEILADAU CYHOEDDUS GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *fod y contractwyr a enwir ym mharagraff 3 yr adroddiad yn cael eu penodi Fframwaith Contractwyr Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Gogledd Cymru.* |
| **14** | DYFODOL CLWYD LEISURE LIMITED | ***PENDERFYNWYD -***<br><br>*(a) bod y Cyngor yn ailddatgan ei weledigaeth o ran datblygu cyfleusterau twristiaeth a hamdden o'r radd flaenaf fel rhan o'r cynnig tymor hir;*<br><br>*(b) bod y Cabinet yn gofyn i Fwrdd Clwyd Leisure Limited ymateb erbyn 31 Ionawr 2014 gan nodi eu cynlluniau tymor byr a chanolig ar gyfer eu cyfleusterau;*<br><br>*(c) bod y Cabinet yn cadarnhau y byddai rheoli Cwmni Cyfyngedig Clwyd Leisure yn ormod o risg;*<br><br>*(d) yn sgil y pryderon parhaus a chanfyddiadau ymarfer sylw dyledus, bod y Cyngor yn rhoi'r gorau i ariannu Clwyd Leisure Limited o 1 Ebrill 2014 ymlaen;*<br><br>*(e) bod y cyllid presennol sydd ar gael i gefnogi Clwyd Leisure Limited (tua £200 mil yn 2014/15) yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r newidiadau hyn ac i ddatblygu cynnig dros dro tra bod y Cyngor yn penderfynu ar y cynnig tymor hir.* |